

“Mab yr Anogaeth”

“Barnabas... (sef, o'i gyfieithu, Mab Anogaeth)...” (adn. 36)

Beth am ddarllen Actau 4:32–37 ac yna myfyrio

Elfen arall oedd yn bwysig yn yr eglwys yn Antiochia oedd y dylanwad yr oedd llygwr yn ei ymarfer o'i mewn. Nid oedd gan yr apostolion ddim i'w wneud â sylfaenu'r eglwys hon. Mae'n wir i ddweud, pan glywodd yr apostolion beth oedd yn digwydd yn Antiochia, eu bod wedi danfon Barnabas (Actau 11:22), ond rhaid i ni gofio mai llygwr oedd Barnabas.

Pan gyfarfyddwn ag ef am y tro cyntaf, yr ydym yn darganfod mai gwerthu cae yr oedd, gan osod yr arian wrth draed yr apostolion. Pan gafodd ei gomisiynu yn ddiweddarach gan yr apostolion i ymweld ag Antiochia, rydym yn darllen: “Wedi iddo gyrraedd a gweld gras Duw, yr oedd yn llawen.” (Actau 11:23) Yr oedd yn fath o ddyn oedd yn cael ei gyffroi gan waith pobl eraill. Un o'r profion ar y gwir Gristion yw a all y dyn neu'r wraig yma lawenhau mewn gwaith sydd yn eiddo i bobl eraill. Roedd gan Barnabas ddiddordeb yn y deyrnas, ac nid ei ran ef yn y deyrnas yn unig.

Daeth Barnabas, er hynny, nid yn unig â'i Ysbryd ef ei hun i'r eglwys yn Antiochia, daeth hefyd â Paul, a elwid gynt yn Saul. Byddaf yn aml yn meddwl a fu i Barnabas, ar ôl gweld â'i lygaid ei hun beth oedd Duw yn ei wneud yn Antiochia, ddweud: “Dyma'r lle i hyfforddi Saul o Darsus.” Felly, aeth i ffwrdd i Darsus i edrych am Saul. (Actau 11:25). Roedd dod â Saul i Antiochia yn waith rhyfeddol, oherwydd mi fyddai yr Eglwys hon wedi dylanwadu yn drwm arno a'i baratoi ar gyfer y weinidogaeth ryngwladol oedd yn gorwedd o'i flaen. Wrth ddarllen llythyrau Paul, rwy'n gweld stamp Barnabas ac eglwys Antiochia arno. Cafodd ei hyfforddi yn dda – ei hyfforddi gan y gorau o ddynion, yn un o eglwysi gorau y Testament Newydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 9:26–27; 11:20–30; 12:25–13:5; 15:22–41; Gal. 2:11–13

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fydddech yn disgrifio agweddau cymeriad Barnabas?
2. A welwch unrhyw wendidau?

Gweddi

O Dduw, dyro yr un fath o galon i mi oedd yn nodweddu Barnabas, fel fy mod yn medru llawenhau yn yr hyn y mae eraill yn ei wneud dros y deyrnas, oherwydd y deyrnas sy'n bwysig, nid fy rhan i yn y deyrnas. Rwy'n diolch am dy waith drwy'r byd, a'th waith ynof fi. Yn enw Iesu. Amen.